

NCFE

CACHE

Tasgau sampl asesu mewnol

**Tystysgrif Lefel 3 NCFE CACHE mewn Deall
Gwaith Chwarae
Rhif: 610/0644/0**

**Diploma Lefel 3 NCFE CACHE mewn Gwaith
Chwarae
Rhif: 610/0645/2**

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Goruchwylio dysgwyr	4
Cefnogi dysgwyr	4
L3CD PW1 Deall chwarae ac egwyddorion gwaith chwarae (J/650/0596)	5
L3CD PW2 Creu amgylcheddau cefnogol ar gyfer chwarae plant (K/650/0597)	7
L3CD PW3 Deall sut i gefnogi diogelu plant yn y safle gwaith chwarae (L/ 650/0598)	10
L3CDPW4 Deall fframweithiau sefydliadol i amddiffyn hawliau plant (R/650/0616)	13
L3CD PW5 Deall chwarae a lles (M/650/0599)	15
L3CD PW6 Deall perthnasoedd yn y safle gwaith chwarae (D/650/0600)	17
L3CD PW7 Deall iechyd a diogelwch yn y safle gwaith chwarae (F/650/0601)	19
L3CPW8 Cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol ac ymarfer myfyriol (H/650/0602)	22
Cysylltwch â ni	23

Cyflwyniad

Rydym wedi creu set o dasgau sampl y gallwch eu gosod mewn cyd-destun i gyd-fynd ag anghenion eich dysgwyr i'w helpu i gasglu eu portffolio o dystiolaeth. Cynlluniwyd y tasgau i gwmpasu'r holl unedau gorfodol sy'n cael eu hasesu'n fewnol ac sy'n rhoi cyfleoedd i ymestyn a herio. Nid yw'r tasgau hyn yn orfodol.

Rhaid i bob dysgwr greu portffolio o dystiolaeth wedi'i chynhyrchu o dasgau asesu priodol, sy'n dangos cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu (LO) gwybodaeth sy'n gysylltiedig â phob uned. Ar ôl cwblhau pob uned, rhaid i ddysgwyr ddatgan mai eu gwaith hwy eu hunain yw'r gwaith a gynhyrchwyd a rhaid i'r aseswr gydlofnodi hyn.

Gall canolfan ddewis creu ei thasgau asesu mewnol ei hun. Mae pedair elfen hanfodol wrth gynhyrchu tasgau asesu llwyddiannus yn y ganolfan, sef:

- sicrhau bod y tasgau asesu yn ystyrlon gyda chanlyniadau clir y gellir eu hasesu
- ymdriniaeth briodol â'r cynnwys, canlyniadau dysgu (LO), neu feini prawf asesu (AC)
- cael cyd-destun neu senario dilys a diddorol
- cynnwys digon o gyfleoedd i ymestyn a herio i'r rhai uwch eu cyrhaeddiad

Gweler ar ein gwefan y ddogfen ganllawiau ar gyfer creu tasgau asesu mewnol.

Mae'r unedau i'w gweld yn adran 2 o fanyleb y cymhwyster.

Goruchwylio dysgwyr

Dylai tiwtoriaid gynnig cymorth ac arwain dysgwyr wrth wneud gwaith sy'n cael ei asesu'n fewnol.

Dylai tiwtoriaid oruchwylio'r gwaith sydd wedi ei wneud gan ddysgwyr er mwyn:

- monitro eu cynnydd
- atal llên-ladrad
- sicrhau bod unrhyw waith ymarferol yn cael ei wneud yn ddiogel ac yn unol â gofynion iechyd a diogelwch
- sicrhau bod y gwaith a gwblheir yn unol â manyleb y cymhwyster a'i fod yn addas ar gyfer asesu mewnol

Rhaid i unrhyw waith a gyflwynir i'w asesu gael ei ddilysu a'i briodoli i'r dysgwr.

Rhaid bodloni'r tiwtor mai gwaith y dysgwr ei hun yw'r gwaith a gynhyrchwyd, a rhaid i'r dysgwr ddatgan mai ei waith ei hun ydyw.

Cefnogi dysgwyr

Mae tiwtoriaid/aseswyr hefyd yn gyfrifol am gefnogi dysgwyr drwy'r broses asesu i sicrhau eu bod yn gallu creu ac ailddrafftio/adolygu gwaith yn annibynnol.

Gall tiwtoriaid/aseswyr:

- helpu'r dysgwr i ddeall cysyniad gwaith sy'n gysylltiedig â gwaith, dysgu cymhwysol a chymwysterau galwedigaethol
- helpu'r dysgwr i ddeall sut i baratoi a chyflwyno'i dystiolaeth, gan gynnwys yr hyn sy'n golygu llên-ladrad a mathau eraill o dwyllo
- ysgogi'r dysgwr i weithio'n gyson drwy'r cymhwyster, gan gynnwys ei helpu i weithio i derfynau amser
- annog y dysgwr i fentro i wneud gwelliannau i'w waith ond peidio â manylu ar y gwelliannau i'w gwneud
- darparu deunydd cyfeirio; fodd bynnag, ni ddylai atebion enghreifftiol neu atebion fesul cam gael eu copïo gan y dysgwr

L3CD PW1 Deall chwarae ac egwyddorion gwaith chwarae (J/650/0596)

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu ar gyfer yr uned.

Tasg asesu - L3CD PW1
<p>Tasg 1</p> <p>Cyfarwyddiadau'r dasg:</p> <p>Rhaid i chi ddatblygu taflen i weithwyr chwarae eraill sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• esbonio'r reddf gynhenid sydd gan blant i chwarae• dadansoddi'r rheidrwydd i chwarae• esbonio beth a olygir wrth ddweud bod chwarae yn rheidrwydd biolegol, seicolegol, cymdeithasol• defnyddio enghreifftiau i adnabod 5 gwahanol amgylchedd lle mae chwarae'n digwydd• esbonio egwyddorion gwaith chwarae.• esbonio sut mae'r egwyddorion gwaith chwarae yn hanfodol i ymarfer gwaith chwarae <p>Canllawiau i'r tiwtor:</p> <p>Gwybodaeth yn unig yw'r uned hon. Ni fydd angen i'r dysgwyr gwblhau unrhyw ran o'r dasg mewn lleoliad, ond gallant ddefnyddio'u profiad i gefnogi eu hymateb os yw hyn yn eu helpu. Bydd angen i'r dysgwyr allu cael at yr egwyddorion gwaith chwarae i'w cefnogi gyda thasg 1.</p> <p>Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):</p> <p>LO1, AC1.1–1.3 LO3, AC3.1 LO4, AC4.1–4.2</p> <p>Mathau o dystiolaeth:</p> <ul style="list-style-type: none">• taflen
<p>Tasg 2</p> <p>Cyfarwyddiadau'r dasg:</p> <p>Rhaid i chi drafod gyda chymheiriaid beth yw chwarae, cyn llunio crynodeb ysgrifenedig. Er mwyn paratoi ar gyfer eich cyfraniad, datblygwch nodiadau a myfyriwch ymhellach ar eich rôl yn dilyn y drafodaeth.</p> <p>I baratoi, datblygwch nodiadau a fydd yn eich helpu i ddisgrifio'r termau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd• chwarae sy'n hunangyfeiriedig• chwarae wedi'i gymell yn gynhenid

Tasg asesu - L3CD PW1

Yn y drafodaeth rhaid i chi rannu eich nodiadau ac egluro'r gwahaniaeth rhwng chwarae a gweithgareddau a arweinir gan oedolion. Peidiwch ag anghofio ysgrifennu eich crynodeb myfyriol o'r drafodaeth sy'n dangos sut rydych chi'n bodloni AC 2.1–2.2.

Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:

LO2, AC2.1–2.2

Mathau o dystiolaeth:

- nodiadau
- trafodaeth gyda chrynodeb ysgrifenedig

L3CD PW2 Creu amgylcheddau cefnogol ar gyfer chwarae plant (K/650/0597)

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) ar gyfer yr uned.

Tasg asesu - L3CD PW2
<p>Tasg 1</p> <p>Cyfarwyddiadau'r dasg:</p> <p>Mae'n rhaid i chi gynhyrchu disgrifiad ysgrifenedig i ddisgrifio gwahanol safleoedd lle gall gwaith chwarae ddigwydd. Gellir cynhyrchu hwn fel poster neu gyfres o gardiau ffeithiau.</p> <p>Canllawiau i'r tiwtor:</p> <p>Mae'r uned hon yn cynnwys meini prawf asesu (AC) sy'n seiliedig ar wybodaeth ac ar sgiliau. Mae Tasg 3 yn cynnwys myfyrio ynghylch arsylwadau a wnaed o blant yn ystod chwarae ac felly dyma'r dull a ffafrir ar gyfer cwblhau'r dasg hon. Fodd bynnag, gellir defnyddio astudiaeth achosion fideo i arsylwi ar chwarae plant mewn amgylchiadau eithafol i nodi mathau o chwarae, y cylch chwarae ac ymyrraeth oedolion gan fod y meini prawf hyn yn canolbwyntio ar fyfyrion. Mae'n rhaid i'r dysgwr ddangos ei fod yn deall pwysigrwydd casglu gwybodaeth ar chwarae plant. Bydd angen i'r dysgwr allu manteisio ar ddeunyddiau ymchwil i gwblhau tasg 2.</p> <p>Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):</p> <p>LO1, AC1.1</p> <p>Mathau o dystiolaeth:</p> <ul style="list-style-type: none">• disgrifiad ysgrifenedig• cardiau ffeithiau
<p>Tasg 2</p> <p>Cyfarwyddiadau'r dasg:</p> <p>Rhaid i chi ymchwilio i'r cwricwlwm gwaith chwarae a damcaniaethau hyblygrwydd cyfansawdd a darnau rhydd i fodloni'r meini prawf canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• disgrifio agweddau'r cwricwlwm gwaith chwarae a'u heffaith ar amgylchedd chwarae cyfoethog• gwerthuso sut mae damcaniaethau hyblygrwydd cyfansawdd a darnau rhydd yn cael effaith gadarnhaol ar amgylchedd chwarae cyfoethog• defnyddio enghraifft i ddisgrifio pob un o'r lleoedd chwarae canlynol a'u manteision:<ul style="list-style-type: none">○ ffisegol○ dros dro○ affeithiol○ parhaol• rhoi enghreifftiau o leoedd chwarae rhyng-gysylltiedig• esbonio sut mae cefnogi plant i greu lleoedd chwarae• esbonio pam mae'n bwysig i blant ddewis ac archwilio lleoedd chwarae drostynt eu hunain

Tasg asesu - L3CD PW2

- disgrifio sut i rymuso plant i newid eu lle chwarae i ddiwallu eu hanghenion a'u dewisiadau chwarae
- disgrifio sut y gall technoleg neu'r byd rhithwir fod o fudd i amgylchedd chwarae cyfoethog
- esbonio pwysigrwydd ymyrraeth gwaith chwarae briodol, gan ddangos gwerthfawrogiad o waith:
 - 16 math o chwarae Bob Hughes (1996)
 - Papur Colorado (Sturrock ac Else, 1998)

Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:

LO2, AC2.1–2.3

LO5, AC5.1–5.3

LO6, AC6.1–6.3

Mathau o dystiolaeth:

- disgrifiad ysgrifenedig
- trafodaeth broffesiynol wedi'i seilio ar nodiadau crynodol a gwaith ymchwil dysgwr

Tasg 3

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Rhaid i chi lunio llyfryn sy'n myfyrio ar bwysigrwydd casglu gwybodaeth am chwarae plant a myfyrdodau ar arsylwadau rydych chi wedi eu cyflawni.

I ddechrau'r dasg hon, dylid cynnwys cyflwyniad i:

- esbonio pwysigrwydd arsylwi wrth ddeall chwarae plant
- esbonio pam mae'n bwysig casglu gwybodaeth er mwyn deall anghenion a dewisiadau chwarae plant – yn ogystal â'r arsylwadau y mae'n rhaid i chi eu cwblhau, mae gwybodaeth yn cynnwys:
 - adborth gan blant
 - gwerthusiadau safle
 - cofnodion a gwybodaeth plant a gafwyd gan rieni/gofalwyr

Sylwer: Rhaid i chi gynnwys yr is-bwyntiau bwled uchod yn eich ymateb

Yn dilyn y cyflwyniad, rhaid i chi ddangos eich bod yn deall y cylch chwarae a'r mathau o chwarae. Rhaid i'ch gwaith yn yr adran hon fodloni'r meini prawf canlynol:

- esbonio camau unigol y cylch chwarae a sut y gellir gweld y rhain yn ymarferol
- disgrifio mathau gwahanol o chwarae
- esbonio sut mae plant yn elwa ar amrywiaeth o fathau o chwarae

Bydd yr adran nesaf yn ystyried pwysigrwydd risg a her wrth chwarae. Rhaid i'ch gwaith yn yr adran hon fodloni'r meini prawf canlynol:

- esbonio buddion risg, symbyliad a her yn ystod chwarae plant
- esbonio'r termau:

Tasg asesu - L3CD PW2

- asesiad o fudd risg
- asesiad o fudd risg dynamig
- disgrifio sut y gall gweithiwr chwarae gefnogi plant i reoli risg drostynt eu hunain

Yn yr adran olaf rhaid i chi fyfyrion ar eich arsylwadau eich hun o chwarae plant neu, mewn amgylchiadau eithafol, efallai y byddwch yn myfyrion ar astudiaethau achos fideo.

Rhaid i chi gwblhau arsylwadau neu astudio astudiaethau achos fideo o chwarae plant a myfyrion ar y rhain i ystyried:

- amrywiaeth o fathau o chwarae
- enghreifftiau o'r cylch chwarae
- plant sy'n rheoli risg eu hunain

Canllawiau i'r tiwtor:

Mae'r dasg hon yn cynnwys myfyrion ynghylch arsylwadau a wnaed o blant yn ystod chwarae ac felly'r dull a ffafrir ar gyfer cwblhau'r dasg hon yw arsylwi chwarae plant; fodd bynnag, gellir defnyddio astudiaeth achos fideo i arsylwi chwarae plant mewn amgylchiadau eithafol i nodi mathau o chwarae, y cylch chwarae ac ymyrraeth oedolion gan fod y meini prawf hyn yn canolbwyntio ar fyfyrion. Rhaid i'r dysgwyr ddangos eu bod yn deall pwysigrwydd casglu gwybodaeth ar chwarae plant.

Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:

LO3, AC3.1–3.2
LO4, AC4.1–4.3
LO7, AC7.1–7.3
LO8, AC8.1

Mathau o dystiolaeth:

- llyfryn arsylwi
- disgrifiadau myfyriol
- disgrifiadau ysgrifenedig

L3CD PW3 Deall sut i gefnogi diogelu plant yn y safle gwaith chwarae (L/ 650/0598)

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) ar gyfer yr uned.

Tasg asesu - L3CD PW3

Tasg 1

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Rhaid i chi ddatblygu a defnyddio adnodd i ddangos eich bod yn deall sut i gefnogi diogelu plant mewn safle gwaith chwarae.

Gellir cynhyrchu'r adnodd fel pecyn canllaw. Yn yr adran gyntaf rhaid i chi:

- amlinellu deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau sy'n effeithio ar ddiogelu plant
- esbonio cyfrifoldebau'r gweithiwr chwarae mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer diogelu lles plant gan gynnwys:
 - adrodd/ymdrin â datgelu
 - amddiffyn plant a hyrwyddo lles plant
 - cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth
 - diogelwch
 - defnyddio technoleg
 - chwythu'r chwiban
 - bwlio
- amlinellu nodweddion cod ymarfer diogel ar gyfer amddiffyn aelodau o'r tîm gwaith chwarae a gwirfoddolwyr
- dadansoddi sut mae canllawiau, polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol ar gyfer diogelu yn effeithio o ddydd i ddydd ar weithio gyda phlant – mae agweddau perthnasol i'w hystyried wrth feddwl am waith pob dydd gyda phlant yn cynnwys:
 - ymarfer gwaith chwarae
 - amddiffyn plant
 - asesiad risg
 - sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed neu ei hyrwyddo
 - cefnogi plant ac eraill a all fod yn mynegi pryder
- esbonio pryd a pham y mae angen gwneud ymholiadau ac adolygiadau o achosion difrifol/adolygiadau o ymarfer plant a sut mae rhannu'r canfyddiadau'n llywio ymarfer:
 - dylid darllen cyfeiriadau at adolygiadau o achosion difrifol yng nghyd-destun terminoleg y genedl gyfredol ei hun

Yn yr ail adran rhaid i chi gynnwys gwybodaeth i fodloni'r meini prawf canlynol:

- esbonio pwysigrwydd diogelu plant y tu mewn a'r tu allan i safle'r cartref gan gynnwys:
 - diogelu data
 - rhannu gwybodaeth
- esbonio ystyr gweithio mewn partneriaeth yng nghyd-destun diogelu
- disgrifio rolau a chyfrifoldebau gwahanol sefydliadau a all fod yn rhan o'r broses pan fydd plentyn mewn perygl o gamdriniaeth neu'n datgelu camdriniaeth – mae gwahanol sefydliadau yn cynnwys, er enghraifft:
 - gwasanaethau cymdeithasol
 - elusennau a gwasanaethau plant fel:

Tasg asesu - L3CD PW3

- y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
- Childline
- meddyg teulu
- y gwasanaeth prawf
- yr heddlu
- yr ysgol

Yn y drydedd adran rhaid i chi ddangos eich bod yn deall gwahanol fathau o gamdriniaeth a all ddigwydd mewn safle gwaith chwarae. Rhaid i'r adran hon gynnwys gwybodaeth er mwyn bodloni'r meini prawf canlynol:

- disgrifio ffactorau a allai gyfrannu at y ffaith bod plentyn yn fwy agored i gamdriniaeth
- disgrifio arwyddion, symptomau, dangosyddion ac ymddygiadau posibl gwahanol fathau o gam-drin
- disgrifio effaith cam-drin ar chwarae plant
- disgrifio'r camau i'w cymryd lle mae cam-drin plentyn yn cael ei amau neu ei honni yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r safle ei hun, gan gyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- esbonio'r hawliau sydd gan blant a'u gofalwyr mewn sefyllfaoedd lle mae cam-drin yn cael ei amau neu'n cael ei honni (mae gofalwyr yn cyfeirio at y rhai sydd mewn capasiti ffurfiol neu gyfreithiol yn ogystal â rolau gofalu eraill, fel neiniau a theidiau neu warchodwyr plant)

Yn y bedwaredd adran rhaid i chi gynnwys gwybodaeth i fodloni'r meini prawf canlynol:

- esbonio gwahanol fathau o fwlio a'r effeithiau posib ar blant - gall enghreifftiau o fwlio gynnwys:
 - corfforol (er enghraifft, gwithio, cicio, taro, pinsio a mathau eraill o drais neu fygythiadau)
 - cam-drin geiriol (er enghraifft, galw enwau, sarhau, coegni, lledaenu celwyddau, pryfocio parhaus)
 - emosiynol (er enghraifft, cau allan, poenydio, gwawdio, cywilyddio)
 - seiberfwlio (er enghraifft, defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn arbennig ffonau symudol a'r rhyngwyd, yn fwriadol i roi ysgytwad i rywun arall)
 - mathau penodol o fwlio a all fod yn berthnasol i bob un o'r uchod, megis bwlio homoffobig neu fwlio ar sail rhywedd, bwlio hiliol neu fwlio sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau.
- esbonio sut i gefnogi plentyn a/neu ei deulu pan fydd achos o fwlio'n cael ei amau neu ei honni..

Canllawiau i'r tiwtor:

Gwybodaeth yn unig yw'r uned hon. Ni fydd angen i'r dysgwyr gwblhau unrhyw ran o'r dasg mewn lleoliad, ond gallant ddefnyddio'u profiad i gefnogi eu hymateb os yw hyn yn eu helpu. Gellir cynnal y drafodaeth gyda chymheiriaid mewn amgylchedd dysgu, ac efallai mai hwn fydd y safle gwaith chwarae neu ddosbarth.

Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):

LO1, AC1.1–1.5
LO2, AC2.1–2.3
LO3, AC3.1–3.5
LO4, AC4.1–4.2

Tasg asesu - L3CD PW3

Mathau o dystiolaeth:

- adnodd

Tasg 2

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Rhaid i chi gymryd rhan mewn trafodaeth rhwng cymheiriaid/cydweithwyr. Paratowch nodiadau i'ch helpu i gyfrannu eich meddyliau a chrynhwch eich canfyddiadau i gwrdd â'r meini prawf canlynol:

- esbonio pam mae'n bwysig gweithio gyda'r plentyn i sicrhau bod ganddo strategaethau i'w ddiogelu a gwneud penderfyniadau am ei ddiogelwch.
- disgrifio sut i gefnogi plant i gydnabod pan fydd yr ymddygiad tuag atynt gan blentyn arall, person ifanc neu oedolyn yn amhriodol
- esbonio ffyrdd o rymuso plant i wneud penderfyniadau cadarnhaol a gwybodus sy'n hybu eu lles a'u diogelwch
- nodi gwahanol ffyrdd y gall plant ddefnyddio technoleg neu'r byd rhithwir yn eu chwarae
- esbonio'r risgiau a'r canlyniadau posibl i blant o fod ar-lein a defnyddio cyfathrebu electronig – gallai cyfathrebu electronig gynnwys:
 - y rhyngwrdd
 - dyfeisiau clyfar
 - dyfeisiau llaw
 - ffonau symudol
 - cyfryngau cymdeithasol
 - rhwydweithio cymdeithasol
 - gemau ar-lein
- disgrifio dulliau y gallai gweithiwr chwarae eu defnyddio i gefnogi plant i leihau'r risgiau o fod ar-lein
- nodi ffynonellau cyfredol o wybodaeth a chymorth sy'n ymwneud ag e-ddiogelwch

Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:

LO5, AC5.1–5.3
LO6, AC6.1–6.4

Mathau o dystiolaeth:

- trafodaeth gyda nodiadau a chrynodeb

L3CDPW4 Deall fframweithiau sefydliadol i amddiffyn hawliau plant (R/650/0616)

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) ar gyfer yr uned.

Tasg asesu - L3CD PW4

Tasg 1

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Rhaid i chi weithio gydag eraill i adolygu a datblygu drafft o ddogfen bolisi chwarae a chymryd rhan mewn trafodaeth broffesiynol gyda'ch tiwtor i rannu eich cyfraniadau. Rhaid i chi allu bodloni'r meini prawf canlynol yn annibynnol trwy eich trafodaeth:

- egluro perthnasedd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- amlinellu erthyglau sydd fwyaf perthnasol i waith chwarae, gan roi rhesymau pam
- esbonio Sylw Cyffredinol Rhif 17 a'i bwysigrwydd i waith chwarae
- esbonio sut mae sefydliadau gwaith chwarae yn ceisio cynnal hawliau pob plentyn – gan gynnwys hawliau:
 - i chwarae a gweithgareddau cymdeithasol
 - i ofal a diogelwch
 - i les emosiynol
 - i gynhwysiant
 - i gydnabod hunaniaeth
 - i gael gwybodaeth:
 - i ymgynghori a gwneud penderfyniadau
- gwerthuso polisiau a gweithdrefnau mewn perthynas â hawliau'r plentyn
- esbonio pwysigrwydd y safle chwarae yn gosod polisiau a gweithdrefnau sy'n adlewyrchu hawliau'r plentyn, gan gynnwys polisi chwarae
- esbonio sut mae hyrwyddo hawliau plant ar y safle chwarae
- gwerthuso polisi chwarae mewn perthynas â chefnogi hawl plant i chwarae a Sylw Cyffredinol Rhif 17
- esbonio sut i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau'n cael eu rhoi ar waith.
- egluro pwysigrwydd adolygu polisiau a gweithdrefnau

Canllawiau i'r tiwtor:

Gwybodaeth yn unig yw'r uned hon. Ni fydd angen i'r dysgwyr gwblhau unrhyw ran o'r dasg mewn lleoliad, ond gallant ddefnyddio eu profiad i gefnogi eu hymateb os yw hyn yn eu helpu. I gwblhau'r meini prawf hyn, rhaid i ddysgwyr gael at bolisi chwarae. Os yw hwn yn anodd cael ato, dylai dysgwyr ddefnyddio polisi sampl.

Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):

LO1, AC1.1–1.3
LO2, AC2.1–2.5
LO3, AC3.1–3.2

Tasg asesu - L3CD PW4

Mathau o dystiolaeth:

- datblygu polisi drafft
- trafodaeth broffesiynol

L3CD PW5 Deall chwarae a lles (M/650/0599)

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) ar gyfer yr uned.

Tasg asesu - L3CD PW5

Tasg 1

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Rhaid i chi baratoi ar gyfer cyflwyniad, cynhyrchu taflen a chymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb rhwng cymheiriaid/cydweithwyr i fodloni'r meini prawf a nodir isod (gallwch ddewis sut mae'r meini prawf yn cael eu bodloni):

- dadansoddi sut mae chwarae'n cyfrannu at ddatblygiad a lles cyfannol plant
- nodi ffactorau a allai effeithio ar sut mae plant yn teimlo
- dadansoddi sut y gallai teimladau ac emosiynau plentyn effeithio ar ei ymddygiad
- esbonio sut y gall chwarae gefnogi plant i fynegi teimladau ac emosiynau
- esbonio sut y gall chwarae gefnogi plant i hunanreoleiddio
- disgrifio ffyrdd y gall lleoliad chwarae ddarparu profiadau sy'n meithrin ar gyfer hunanddisgyblaeth mewn plant
- crynhoi mathau o ffactorau a allai effeithio ar iechyd meddwl a lles plant
- esbonio ystyr profiadau niweidiol yn ystod plentynod a sut y gallai hyn ddylanwadu ar blant drwy gydol eu bywydau
- esbonio rôl ymarfer sy'n cael ei lywio gan drawma
- disgrifio trawsnewidiadau allweddol y mae pob plentyn yn cael profiad ohonynt
- disgrifio trawsnewidiadau y mae rhai plant yn cael profiad ohonynt
- disgrifio sut y gall trawsnewidiad ddylanwadu ar sut mae plant yn chwarae
- esbonio sut mae chwarae'n helpu plant i ddatblygu eu:
 - cadernid
 - hunan-barch
 - hunanhyder

Canllawiau i'r tiwtor:

Gwybodaeth yn unig yw'r uned hon. Ni fydd angen i'r dysgwyr gwblhau unrhyw ran o'r dasg mewn lleoliad ond gallant ddefnyddio eu profiad i gefnogi eu hymateb os yw hyn yn eu helpu.

Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):

LO1, AC1.1
LO2, AC2.1–2.3
LO3, AC3.1–3.2
LO4, AC4.1–4.3
LO5, AC5.1–5.3
LO6, AC6.1

Tasg asesu - L3CD PW5

Mathau o dystiolaeth:

- cyflwyniad
- taflen
- trafodaeth broffesiynol

Tasg 2

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Rhaid i chi gynhyrchu disgrifiad ysgrifenedig myfyriol.

Mae'n rhaid i'r disgrifiad ysgrifenedig fyfyrion ar y ffordd y gall gwaith chwarae gefnogi plant i fagu cadernid, hyder a hunan-barch. Gall darparu enghreifftiau gefnogi eich myfyrdod.

Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):

LO6, AC6.2

Mathau o dystiolaeth:

- disgrifiad myfyriol

L3CD PW6 Deall perthnasoedd yn y safle gwaith chwarae (D/650/0600)

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) ar gyfer yr uned.

Tasg asesu - L3CD PW6

Tasg 1

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Rhaid i chi gymryd rhan mewn trafodaeth broffesiynol i fodloni'r meini prawf a nodir isod. Rhaid crynhoi unrhyw feini prawf nad ydynt yn cael eu bodloni'n ddigonol drwy'r drafodaeth fel disgrifiad ysgrifenedig, myfyriol. Efallai yr hoffech gyfeirio at enghreifftiau a disgrifiadau myfyriol yn eich trafodaeth broffesiynol i fodloni'r meini prawf isod:

- disgrifio gwahanol strategaethau i helpu pob plentyn i deimlo bod croeso iddo a'i fod yn cael ei werthfawrogi yn y safle gwaith chwarae
- esbonio geiriau a rhyngweithiadau 'priodol' ac 'amhriodol' pan fydd gweithiwr chwarae yn ymgysylltu â phlant
- esbonio pam mae'n bwysig cynnwys plant wrth wneud penderfyniadau.
- gwerthuso gwahanol ffyrdd o gynnwys plant wrth wneud penderfyniadau
- esbonio pwysigrwydd gwrando'n weithredol a chyfathrebu'n glir â phlant
- amlinellu pam mae'n bwysig i blant allu gofyn cwestiynau, cynnig syniadau a gwneud awgrymiadau am y safle gwaith chwarae
- disgrifio gwahanol ddulliau cyfathrebu y gallai gweithiwr chwarae eu defnyddio sy'n briodol i anghenion neu alluoedd unigol plentyn
- defnyddio enghreifftiau i ddangos sut y gellir cefnogi plant i ddeall gwerth a phwysigrwydd perthnasoedd cadarnhaol
- esbonio pam mae'n bwysig i blant allu delio â gwrthdaro eu hunain
- esbonio'r mathau o gymorth y gall fod angen i'r gweithiwr chwarae eu rhoi i helpu plant ddelio â gwrthdaro eu hunain
- esbonio sut y gall profiadau plentyndod effeithio ar berthynas plant ag eraill
- esbonio pam mae'n bwysig cael perthynas gadarnhaol ag oedolion yn y safle gwaith chwarae – wrth ystyried oedolion darperir y canllawiau canlynol:
 - tîm gwaith chwarae a gwirfoddolwyr
 - staff eraill yn y safle
 - rhieni/gofalwyr a'r rhai mewn rôl gofalu
- esbonio pwysigrwydd cyfathrebu clir ag oedolion yn yr amgylchedd chwarae
- crynhoi gwahanol strategaethau y gall y gweithiwr chwarae eu defnyddio i gyfathrebu ag oedolion sydd ag anawsterau cyfathrebu
- gwerthuso mathau o sefyllfaoedd a allai arwain at wrthdaro rhwng gweithwyr chwarae ac oedolion eraill a sut y gallech ymateb iddynt

Canllawiau i'r tiwtor:

Gwybodaeth yn unig yw'r uned hon. Ni fydd angen i'r dysgwyr gwblhau unrhyw ran o'r dasg mewn lleoliad ond gallant ddefnyddio eu profiad i gefnogi eu hymateb os yw hyn yn eu helpu.

Tasg asesu - L3CD PW6

Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):

LO1, AC1.1–1.4

LO2, AC2.1–2.3

LO3, AC3.1–3.4

LO4, AC4.1–4.4

Mathau o dystiolaeth:

- trafodaeth broffesiynol
- disgrifiadau myfyriol

L3CD PW7 Deall iechyd a diogelwch yn y safle gwaith chwarae (F/650/0601)

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu ar gyfer yr uned.

Tasg asesu - L3CD PW7

Tasg 1

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Rhaid i chi gynhyrchu adnodd i gymheiriaid/cydweithwyr eraill i roi gwybod iddynt am iechyd a diogelwch mewn safle gwaith chwarae. Datblygwch yr adnodd i fodloni'r meini prawf canlynol. Cewch ddefnyddio'r penawdau yn yr adnodd i'ch helpu, ac fe allai fod yn ddefnyddiol cynnwys siartiau asesu risg i lywio'ch gwaith:

- crynhoi'r gofynion statudol a rheoleiddio ar gyfer iechyd a diogelwch sy'n berthnasol mewn cyd-destun gwaith chwarae – gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau:
 - codi a chario
 - gwacáu adeilad pan ddigwydd tân
 - clefyd y lleng filwyr
 - rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) (2002)
 - rheoliadau adrodd ar anafiadau, clefydau, a digwyddiadau peryglus (RIDDOR) (2013)
 - diogelwch bwyd
 - cloi i lawr/cloi i mewn
 - gwacáu'r adeilad
- esbonio polisiau a gweithdrefnau ar gyfer iechyd a diogelwch sy'n berthnasol mewn cyd-destun gwaith chwarae:
 - ymarfer tân o chwith
 - ymarfer tân
 - tresmaswr
 - cloi i lawr
- esbonio'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau diogelwch yn y safle gwaith chwarae, gan gynnwys archwilio diogelwch:
 - cyfleusterau a chyfarpar
 - hylendid toiledau a manau ymolchi
 - symud plant o'r naill le i'r llall
 - y plant yn dod ac yn ymadael
 - storio a rhoi meddyginiaeth
- amlinellu sut y gall cyfnod datblygu a gallu plant effeithio ar drefniadau iechyd a diogelwch mewn safle gwaith chwarae
- nodi gwahanol beryglon a all ddigwydd mewn safle gwaith chwarae, gan gynnwys peryglon:
 - ymarfer tân o chwith
 - ymarfer tân
 - tresmaswr
 - cloi i lawr
- disgrifio sut i asesu ac ymateb i'r peryglon a all ddigwydd mewn safle gwaith chwarae
- esbonio'r camau y dylai gweithiwr chwarae eu cymryd os na ellir gwaredu perygl
- egluro'r gwahaniaeth rhwng archwiliadau iechyd a diogelwch ac asesiad budd risg
- esbonio sut i ymateb i ystod o ddamweiniau ac anafiadau
- esbonio'r gweithdrefnau brys ar gyfer:
 - tân

Tasg asesu - L3CD PW7

- plant ar goll
- gwacáu'r adeilad
- digwyddiad diogelwch
- argyfwng meddygol
- esbonio'r gweithdrefnau i'w dilyn i gofnodi ac adrodd damweiniau a digwyddiadau

Canllawiau i'r tiwtor:

Gwybodaeth yn unig yw'r uned hon. Ni fydd angen i'r dysgwyr gwblhau unrhyw un o'r tasgau mewn lleoliad ond gallant ddefnyddio eu profiad i gefnogi eu hymateb os yw hyn yn eu helpu. Efallai y bydd dysgwyr yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at bolisiâu iechyd a diogelwch a gwybodaeth ynghylch afiechydon cyffredin plentyndod o safle gwaith chwarae i gyfleu eu hymateb.

Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):

LO1, AC1.1
LO2, AC2.1–2.3
LO3, AC3.1–3.4
LO4, AC4.1–4.3

Mathau o dystiolaeth:

- disgrifiad ysgrifenedig megis adnodd i gymheiriaid/cydweithwyr

Tasg 2

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Rhaid i chi gyflwyno'r wybodaeth ganlynol fel cyfres o gardiau/taflenni ffeithiau neu daflenni. Gellir cynnwys tablau a siartiau yn eich ymateb i fodloni'r meini prawf canlynol:

- disgrifio arwyddion a symptomau o fathau cyffredin o afiechydon ac alergeddau plentyndod y gallai gweithiwr chwarae ddod ar eu traws
- esbonio ymatebion priodol i ystod o afiechydon ac alergeddau cyffredin plentyndod
- esbonio gweithdrefnau cadw cofnodion a rhoi gwybod wrth ymateb i afiechydon ac alergeddau mewn safle gwaith chwarae
- esbonio arfer da mewn perthynas â:
 - thraws-heintiad
 - trin bwyd
 - gwaredu gwastraff
 - clefyd heintus neu glefyd a gludir yn y gwaed

Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:

LO5, AC5.1–5.3
LO6, AC6.1

Tasg asesu - L3CD PW7

Mathau o dystiolaeth:

- cardiau ffeithiau/taflenni ffeithiau neu daflenni

L3CPW8 Cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol ac ymarfer myfyriol (H/650/0602)

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu ar gyfer yr uned.

Tasg Asesu – L3CPW8

Tasg 1

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Rhaid i chi ddatblygu eich cynllun datblygu personol (CDP) eich hun. Gellir cyflwyno hwn mewn templed a ddyfeisiwyd gan eich tiwtor neu gennych chi. Rhaid cynnwys gwybodaeth fel rhan o'ch CDP i fodloni'r meini prawf canlynol:

- egluro pwysigrwydd ymarfer myfyriol ar gyfer gwaith chwarae
- esbonio sut mae arferion myfyriol yn ymwneud ag egwyddorion gwaith chwarae
- esbonio sut y gellir defnyddio arsylwadau o chwarae ac adborth gan blant ac oedolion wrth i chi baratoi ar gyfer ymarfer gwaith chwarae
- esbonio sut y gallai gwerthoedd, systemau cred a phrofiadau personol effeithio ar ymarfer gwaith
- esbonio sut mae myfyrio yn cefnogi datblygu ymarfer gwaith chwarae o fewn y safle
- nodi unrhyw fylchau gwybodaeth neu sgiliau sy'n gofyn am ddatblygiad proffesiynol i ddiwallu anghenion cyfredol neu yn y dyfodol ar gyfer ymarfer gwaith chwarae
- nodi ffynonellau cymorth ar gyfer cynllunio ac adolygu eich datblygiad eich hun
- dangos sut i weithio gydag eraill i adolygu a blaenoriaethu eich anghenion dysgu, eich diddordebau proffesiynol a'ch cyfleoedd datblygiad eich hun
- defnyddio adborth i werthuso'ch perfformiad eich hun a rhoi gwybod am gynlluniau datblygu
- llunio cynllun ar gyfer datblygiad proffesiynol
- nodi gwahanol gyfleoedd hyfforddi a datblygu proffesiynol
- ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sy'n berthnasol i'ch nodau a'ch targedau eich hun
- dangos sut mae cofnodi cynnydd mewn perthynas â datblygiad proffesiynol
- myfyrio ynghylch gweithgareddau datblygiad proffesiynol

Canllawiau i'r tiwtor:

Gwybodaeth yn unig yw'r uned hon. Bydd yr asesiad hwn yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol a phroffesiynol y dysgwyr eu hunain wrth iddynt baratoi i fod yn weithiwr chwarae.

Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):

LO1, AC1.1–1.4
LO2, AC2.1
LO3, AC3.1–3.5
LO4, AC4.1–4.4

Mathau o dystiolaeth:

- cynnyrch gwaith megis CDP

Cysylltwch â ni

NCFE
Q6
Quorum Park
Benton Lane
Newcastle upon Tyne
NE12 8BT

Ffôn: 0191 239 8000*
Ffacs: 0191 239 8001
E-bost: customersupport@ncfe.org.uk
Gwefannau: www.ncfe.org.uk

Hawlfraint NCFE © 2022 Cedwir pob hawl yn fyd-eang

Fersiwn 1.0 Gorffennaf 2022

Mae'r wybodaeth yn y ddogfen asesu fewnol hon yn gywir adeg cyhoeddi ond gall fod yn destun newid.

Mae NCFE yn elusen gofrestrdedig (Rhif Elusen Gofrestredig 1034808) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant (Rhif Cwmni 2896700).

Mae CACHE; Council for Awards in Care, Health and Education; a NNEB yn nodau masnach cofrestredig sy'n eiddo i NCFE.

Mae'r holl ddeunydd yn y cyhoeddiad hwn yn cael ei warchod gan hawlfraint.

**** I barhau i wella ein lefelau gwasanaeth cwsmeriaid, gall galwadau ffôn gael eu recordio at ddibenion hyfforddiant ac ansawdd.***